

# Sioe Dinbych



**Dydd Sadwrn 27 Awst 2016**  
**Hanner Dydd ymlaen**


**ar Gae Lôn Felin,**  
**Ffordd Ystrad, Dinbych**

**Oedolion £6.50; Yr Henoed £4.50**

**Plant AM DDIM**

**Am ragor o fanylion ymwelwch â'n**  
**gwefan:**

**[www.thedenbighshow.co.uk](http://www.thedenbighshow.co.uk)**



## Ffeithiau am Sioe Dinbych

Mae Sioe Dinbych yn ddigwyddiad teuluol traddodiadol tu allan a gynhelir yn nhref farchnad hanesyddol Dinbych yn Nyffryn Clwyd. Mae'r Sioe yn cynnig amrywiaeth mawr o adloniant ac yn dod â chymdeithasau lleol ynghyd wrth ddatlu pethau gorau y dref.

### Beth sy ar gael?

Bydd y Sioe eleni yn llawn egni gan roi'r cyfle i bob oedran gymryd rhan mewn rhywbeth creadigol, ac i fwynhau'r awyrgylch draddodiadol. Bydd amrywiaeth eang o adloniant.

### Y Sioe Flodau

Bydd y 74<sup>ain</sup> sioe flodau yn cynnig i'n hymwelwyr babell anferth yn llawn o bob math o flodau, ffrwythau a llysiau, peintiadau, crefft law a llawer mwy efo thros 60 cwpan ar gyfer yr enillwyr. I gael trefnlen i'r sioe a ffurflenni cais cysylltwch â ni neu lawrlwythwch nhw o'r wefan.

### Sioe Anifeiliaid Anwes Hwyl

Gall pobl sy'n caru anifeiliaid anwes (oedolion a phlant) ymuno yn ein cystadleuaeth sioe anifeiliaid hwyl a feirniadir gan filfeddyg lleol. Os hoffech chi gymryd rhan neu eisiau mwy o fanylion dilynwch y cysylltiadau ar: [www.thedenbighshow.co.uk](http://www.thedenbighshow.co.uk) neu allwch chi gofrestru ar y diwrnod cyn 2y.h.

## Uchafbwyntiau'r Adloniant Byw

Eleni bydd sioe styntiau gyffrous, unigryw efo'r reidwyr tîm Broke FMX yn syfrdanu'r gynulleidfa efo'u talentau anghredadwy. Mae'r sioe yn cynnwys arddangosiadau treial syfrdanol beiciau modur.

Mae'r thema natur yn cynnig cyfleoedd i bob oedran ddysgu am yr amgylchedd lleol. Gall ymwelwyr fforio natur ar faes y Sioe efo gwyddoniaeth REAL ar waith! Dan arweiniad Iwan Edwards Gwyddonydd Cymunedol Labordai Awyr Agored gall plant ac oedolion ddarganfod a chyffwrdd â natur.

Bydd arddangosiadau a sialensiau, cerddoriaeth fyw, perfformiadau gan 'Shine', helpa drysor, rolïo'r gasgen iau, picnic tedi bêr efo chaneuon a storïau efo hoff gymeriadau, Pwnsh a Jwdi, peintio wyneb, ffair a thros 50 car clasurol ac arddangosiadau beiciau.

**"Peidiwch â cholli'r Raffl Fawr**  
**1af £300 2il £100 3ydd £50"**

### Sut i ddod o hyd i ni

O'r A55, A525 a'r A543 dilynwch yr arwyddion i Ddinbych. Lleolir maes y Sioe ar Ffordd Ystrad sy'n rhedeg tu ôl i Ysgol Uwchradd Dinbych, ac mae arwyddion trwy'r dref. Côd post y maes ydy LL16 4RH.